

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

The Welsh language belongs to all of us

CYDLYNYDD IEUENCTID CYMUNEDOL RHONDDA CYNON TAF


Teitl y swydd:	CYDLYNYDD IEUENCTID CYMUNEDOL RHONDDA CYNON TAF
Yn atebol i:	Prif Weithredwraig Menter Iaith RhCT a'r Pwyllgor gwaith
Cyflog:	£23 - £25,000 y flwyddyn llawn amser.
Oriau gwaith:	37.5 awr yr wythnos. Oriau hyblyg
Lleoliad:	Swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Ysgolion cyfun a lleoliadau cymunedol amrywiol
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol pro rata, ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr.
Cyfnod prawf:	6 mis
Pensiwn:	Pensiwn gwladol yn y gweithle
Gwiriad CRB:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB/ISA)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.


Swyddog Ieuentid cymunedol Rhondda Cynon Taf

Nôd – Cydlynu, darparu a rheoli gweithgarwch a chyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf gan ffocysu'n bennaf ar bobl ifanc er mwyn annog perchnogaeth o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

The Welsh language belongs to all of us

Prif Ddyletswyddau

Sefydlu, rheoli a chynnal grwpiau, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau penodol o fewn ysgolion ac yn gymunedol.

Ymchwilio, cydlynu a chynnal gweithdai a gweithgareddau o fewn ysgolion cyfun a chymunedau'r Sir.

Cefnogi'r Brif Weithredwraig wrth baratoi ceisiadau ariannol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau ieuencid a chymunedol, gan gynnwys prosiectau ymchwil ar ddefnydd y Gymraeg.

Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli a rheoli'r cyfleoedd hynny.

Cydweithio'n strategol ac ymarferol gydag aelodau eraill o staff i gynnal 3 digwyddiad cynhwysol y flwyddyn.

Cydweithio gyda mudiadau cymunedol amrywiol, Swyddogion Ieuencid Adran Ieuencid RhCT a'r Urdd gan arwain trafodaethau lle bo angen.

Cynnal mewnbwn cymunedol a ieuencid y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Hyrwyddo a hybu'r holl weithgareddau ieuencid chymunedol.

Datblygu cynulleidfa Gymraeg gyda'r ôl 16 trwy amryw ddulliau gan gynnwys cerddoriaeth a gigiau gan ddefnyddio Parti Ponty fel ffocws penllanw.

Creu a chynnal grŵp/iau cymunedol gyda phobl ifanc hŷn trwy rwydweithiau ar lein a chynlluniau digidol arloesol.


Ymgymryd â thasgau rhesymol eraill yn achlysurol ac yn ôl y galw.

Gofynion angenrheidiol

1. Gradd neu gymhwyster gyfwerth berthnasol mewn gwaith ieuencid
2. Profiad o lunio a gweithredu cynlluniau cymunedol.
3. Y gallu i reoli gwirfoddolwyr a swyddogion prosiectau unigol.
4. Y gallu i lunio ceisiadau ariannol.

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

The Welsh language belongs to all of us


5. Y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg a Saesneg i safon uchel yn llafar ac yn ysgrifenedig.
6. Y profiad a'r gallu i greu a chynnal cyflwyniadau i gynulleidfaoedd amrywiol.
7. Y gallu i gynnal gweithgareddau ieuencid yn unol â gofynion pobl ifanc.
8. Profiad blaenorol o drefnu gweithgareddau amrywiol.
9. Y gallu i weithio'n annibynnol a gweithio fel rhan o dim.
10. Bod yn weinyddol effeithiol.
11. Meddu ar drwydded yrru lawn.
12. Sgiliau cyfrifiadurol cyfoes da.
13. Profiad o ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol amrywiol fel pwynt cyswllt.

Gofynion dymunol

14. Gwybodaeth eang o ddiwylliant cyfoes Cymraeg.
15. Profiad blaenorol o lunio ceisiadau grant.
16. Cymhwyster neu brofiad mewn maes/meysydd diddordeb e.e. celfyddydau, perfformio, chwaraeon ayb.
17. Profiad o fentora pobl ifanc.

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135